



# E-GYLCHLYTHYR Gwanwyn 2018



## Diweddariad TYR

Mae 2018 wedi bod yn flwyddyn brysur hyd yn hyn i'r tîm, gyda chymaint yn digwydd ar draws y rhanbarth i gefnogi darpariaeth bresennol, annog prosiectau newydd ac ymgynghori ar yr hyn a allai ddod yn y dyfodol.

Ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd, cynaliasom ddigwyddiadau ymgynghori ar Gyllid Rhanbarthol yn y Dyfodol ar ôl Brexit a drefnwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Yr oedd yn ddiddorol cymharu ymatebion y gwahanol grwpiau gweithdy a gafwyd gan y tîm a chymryd rhan yn nigwyddiad WCVA ar gyfer y trydydd sector. Byddwn yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ddiweddariad WEFO [yma](#).

Cynllunio digwyddiadau oedd y peth nesaf i ni ei wneud. Bydd y cyntaf o'r digwyddiadau hyn yn cael ei gynnal wrth i'r cylchlythyr hwn gael ei ddsbarthu. Mae'r digwyddiad ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chyflogadwyedd ar gyfer holl brosiectau rhanbarthol a chraidd yr ESF yn ogystal â phrosiectau'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol sy'n cael eu cyflawni yn y de-ddwyrain. Bydd y digwyddiad yn tynnu pawb ynghyd i archwilio'r ffyrdd gorau i brosiectau gydweithredu, gan sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i anghenion y bobl sy'n derbyn y cymorth; byddwn yn adrodd ar y canlyniadau yn y rhifyn nesaf. Rydym hefyd yn hwyluso gweithdy i helpu prosiectau ESF i ystyried a pharatoi ar gyfer y rheolau diogelu data newydd ar ddiwedd mis Mawrth. Rydym yn cynllunio 2 ddigwyddiad arall ac mae'r dyddiadau i'w gweld yn ein hadran Digwyddiadau sydd Ar Ddod.

O ran prosiectau newydd, yn sgil galwad diweddar gan WEFO am brosiectau Ymchwil ac Arloesi, mae'r tîm wedi cefnogi ein cydweithwyr yn WEFO trwy ymgysylltu ag arweinwyr prosiect posibl a hybu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y sector preifat yn yr alwad.

Rydym ni hefyd wedi bod yn cefnogi ein cydweithwyr ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Cyflogadwyedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn adrodd ar ymgysylltiad rhanddeiliaid ac, wrth gwrs, yn parhau â'n rhwydweithiau ESF rhanbarthol a phaneli profi strategol.

## Yn y rhifyn hwn

### Diweddariad TYR

Tudalen 1

### Diweddarau canllawiau

Tudalen 2

### Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 2

### Cynllun cyflogadwyedd

Tudalen 2

### Polisi rhanbarthol yn y dyfodol

Tudalen 3

### Cydweithredu tiriogaethol

Tudalen 3

### Bargen Ddinesig CCR

Tudalen 4

### Digwyddiadau sydd ar ddod

Tudalen 4

### Cyfle ariannu

Tudalen 5

### Mae BREEAM yn newid

Tudalen 5

### Cynllun Gwres Caerau

Tudalen 6

### Buddsoddiad cyfalaf ERDF

Tudalen 7

### VIPs â Chanolfan Glowyr

#### Caerffili

Tudalen 8

## Diweddarau canllawiau WEFO

Mae canllawiau Rheolau cymhwysra ac amodau ar gyfer cael cymorth gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 wedi'u

diweddarau, ac mae fersiwn 3.0 ar gael erbyn hyn ar [wefan](#) WEFO. Nid yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn ychwanegu rhagor o ofynion, yn hytrach maent yn ceisio darparu mwy o eglurdeb.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Tasglu'r Cymoedd

Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Gweithlu'r Cymoedd, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymweld â thair ardal ar draws y cymoedd i drafod ei



gynigion ar gyfer "Parc Tirweddau'r Cymoedd" â rhanddeiliaid o'r gymuned. Nodau'r cynnig yw buddsoddi yn asedau naturiol a diwylliannol y Cymoedd, grymuso cymunedau lleol, cynnig cyfleoedd hamdden rhagorol a hygyrch, meithrin balchder cymunedol yn y Cymoedd a gwella canol trefi y Cymoedd yn lleoedd llewyrchus, â manau gwyrdd deniadol, sy'n cefnogi

economïau lleol.

Trwy weithredu'r camau a nodir yn y cynllun, bydd y Cymoedd yn lleoedd â chymunedau grymus, ag amgylchedd lleol hawdd ei gyrraedd, a gaiff ei ddefnyddio'n helaeth ac sydd wrth wraidd bywyd yn y Cymoedd.

Bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid lunio'r cynnig ar gyfer Parc Tirweddau'r Cymoedd a dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch safleoedd penodedig ledled y Cymoedd a phrosiectau cymunedol lleol sydd â photensial i'w datblygu.

Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer y digwyddiadau wedi'u cynnwys isod:  
16 Ebrill, Parc Gwledig Cwm Dâr, 17:30 – 19:30  
26 Ebrill, Parc a Thŷ Bedwellty, 17:30 – 19:30  
30 Ebrill, Canolfan Gelfyddydau Pontardawe, 17:30 – 19:30

Os hoffech chi ddod i un o'r digwyddiadau, cysylltwch â Thîm Tasglu'r Cymoedd yn [TalkValleys@gov.wales](mailto:TalkValleys@gov.wales) a bydd rhywun o'r tîm yn anfon gwahoddiad swyddogol.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Cynllun cyflogadwyedd

**Am 20fed Mawrth fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes lansio'r Cynllun Cyflogadwyedd yn IKEA Caerdydd.**

Diben y Cynllun Cyflogadwyedd yw mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch drwy amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i waith ac i aros mewn gwaith a hefyd i sicrhau y gall cyflogwyr ddod o hyd i'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn i'w

busnes ffynnu.

**Mae pedwar prif faes i'r cynllun:**

- Dull unigolydd o fynd ati i gynnig cymorth i hybu cyflogadwyedd
- Cyfrifoldeb cyflogwyr i wella sgiliau staff a'u cefnogi
- Ymateb i'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran sgiliau a'r bylchau a ragwelir at y dyfodol
- Paratoi ar gyfer newidiadau mawr yn y byd gwaith

Edrychwch ar y Cynllun [yma](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

## Brexit a pholisi rhanbarthol yn y dyfodol

Cynhaliwyd digwyddiadau cynnwys y cyhoedd dan arweiniad Llywodraeth Cymru yng nogledd Cymru (lle'r oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn bresennol) ac yn ne Cymru (lle'r oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bresennol) ym mis Ionawr i gael adborth rhanddeiliaid ynglŷn â syniadau a chynigion yn dilyn lansio'r papur polisi ar [Fuddsoddi](#)

[Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#) ar 14 Rhagfyr.

Roedd y papur polisi a'r digwyddiadau ymgysylltu yn ddechrau proses o ymgysylltu a gwaith partneriaeth i ddatblygu consensws ar ymagwedd 'a wnaed yng Nghymru' at fuddsoddi rhanbarthol, gan adeiladu ar yr UE blaenorol.

Rydym yn edrych ymlaen at weld mwy o wybodaeth am ganlyniadau'r ymgynghoriad maes o law.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Rhaglenni cydweithredu tiriogaethol

Lansiodd **Rhaglen Ardal yr Iwerydd** ei hail alwad am gynigion prosiect ddoe. Bydd yr alwad yn rhedeg tan 1 Mehefin a bydd €43 miliwn ar gael ar draws blaenoriaethau'r rhaglen, sef arloesi, effeithlonrwydd adnoddau, cydnerthedd tiriogaethol, a gwella asedau naturiol a diwylliannol a bioamrywiaeth. Mae hwn yn gyfle gwych i randdeiliaid yng Nghymru o bob sector fod yn rhan o raglen ryngwladol, sy'n datblygu prosiect gydag arbenigwyr o bob rhan o Ardal yr Iwerydd i fynd i'r afael â heriau cyffredin.

Os oes gennych syniad am brosiect, cysylltwch â Chyswllt y DU, [Guillaume Le-Palud](#) a fydd yn gallu eich helpu i ddatblygu eich syniad, trafod y rhaglen a'ch helpu i chwilio am bartneriaid.

Bydd WEFO hefyd yn trefnu gweithdai ar yr alwad ar gyfer rhanddeiliaid o Gymru – bydd hwn yn gyfle i ddysgu am y rhaglen a chael cyfarfodydd un i un â Guillaume i ddatblygu'ch syniadau. Bydd un digwyddiad yn Abertawe ac un arall yn Lerpwl/

Manceinion yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 9 Ebrill. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan (dilynwch [@wefowales](#) / [@wefocymru](#)) – os hoffech ragor o wybodaeth, ac i gael eich ychwanegu at ein rhestr gyfathrebu, cysylltwch â [Territorial Co-operation Unit](#)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan](#) rhaglen Ardal yr Iwerydd.

Bydd **Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop** yn agor ei galwad nesaf am gynigion prosiectau ar 26 Mawrth, a bydd yn cau ar 26 Ebrill. Bydd yr alwad ar agor ar draws pob un o flaenoriaethau'r rhaglen, sef arloesi, carbon isel, ac effeithlonrwydd adnoddau a deunyddiau. Mae gan y rhaglen hefyd alwad gwerth €50 miliwn wedi'i thargedu at brosiectau ynni adnewyddadwy, a fydd yn cau ar 31 Gorffennaf.

Os oes gennych syniad am brosiect, neu os hoffech drafod y rhaglen, cysylltwch â Chyswllt y DU, [Emily Shephard](#) a [Filippo Compagni](#), a fydd hefyd yn gallu eich helpu i ddatblygu eich syniad a chwilio am bartneriaid.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan](#) Rhaglen Gogledd-orllewin Ewrop

[...yn ôl i'r brig](#)



## Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gwthio'r Fargen Ddinesig yn ei blaen

Bu'n ddechrau cadarn i'r flwyddyn ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda sawl datblygiad allweddol wrth weithredu ei raglen Bargaen Ddinesig.

Mae cynllun busnes strategol wedi'i gytuno'n ffurfiol gan y Cabinet Rhanbarthol, sy'n cynnwys arweinwyr gwleidyddol y deg awdurdod lleol dan sylw. Mae'r ddogfen, sydd [ar gael ar-lein](#), yn amlinellu'r hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni amcanion hirdymor y Fargen Ddinesig, ac yn rhoi manylion am sut y caiff y Gronfa Fuddsoddi Ehangach gwerth £1.2 biliwn ei defnyddio yn ystod y pum mlynedd nesaf i wthio'r camau gweithredu yn eu blaen.

Amcanion economaidd cyffredinol y Fargen Ddinesig yw creu 25,000 o swyddi newydd a denu buddsoddiad gwerth £4 biliwn o'r sector preifat, a'r amcanion allweddol a nodir yw Ffyniant a Chyfleoedd; Cynhwysiant a Chyfrifoldeb; a Hunaniaeth, Diwylliant, Cymuned a Chynaliadwyedd.

Ers mis Ionawr, mae tair rhaglen ddatblygu, yn cefnogi'r themâu strategol tai, sgiliau a chysylltedd digidol yn y rhanbarth, eisoes wedi'u cytuno i wthio'r Fargen Ddinesig yn ei blaen: 'Cronfa Buddsoddi Tai Rhanbarthol', 'Prosiect Sgiliau ar gyfer y Dyfodol', a'r 'Strategaeth Ddigidol'. Cytunodd y Cabinet Rhanbarthol mewn egwyddor i fuddsoddi £40 miliwn hefyd mewn canolfan drafndiaeth arfaethedig gwerth £180 miliwn yng Ngorsaf Caerdydd Canolog.

Mae'r broses o greu cyrff cefnogi allweddol i'r Cabinet hefyd wedi'i chwblhau erbyn hyn, a phenodwyd aelodau bwrdd i'r Bartneriaeth

Twf Economaidd (EGP) ac i'r Cyngor Busnes.



Mae'r EGP, sydd wedi'i chadeirio gan bartner sefydlu yn Gambit Corporate Finance, Frank Holmes, yn cynnwys 13 o gynrychiolwyr o fusnesau, addysg uwch, mentrau cymdeithasol, cyflogaeth a llywodraeth leol. Bydd yn cynghori'r Cabinet Rhanbarthol yn uniongyrchol ac mae'n gyfrifol am adolygu strategaeth economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan wneud argymhellion ar sut y gweithredir y Fargen Ddinesig a chynghori ar benderfyniadau buddsoddi. Bydd ganddi swyddogaeth eirioli hefyd, yn hyrwyddo'r rhanbarth fel cyfle buddsoddi pwysig ac fel cyrchfan i ymwelwyr.

Mae'r Cyngor Busnes, sydd wedi'i gadeirio gan Neil Brierley, Cyfarwyddwr Gweithrediadau dros Gymru a'r De-orllewin Faithful+Gould, yn gyfrifol am ymgysylltu â'r holl fusnesau a nodi eu hanghenion, gan ddarparu llais cryf i fusnesau lywio cynllun a chyflawniad gweithgareddau datblygu economaidd ac adfywio sylweddol ledled rhanbarth de-ddwyrain Cymru. Daw aelodau o bob rhan o'r rhanbarth ac maent yn cwmpasu amrywiaeth eang o gefndiroedd busnes a sectorau, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Ffederasiwn Busnesau Bach, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, a Siambr Fasnach De Cymru.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Digwyddiadau sydd Ar Ddod

- Digwyddiadau ymgynghori Parc Tirweddau'r Cymoedd – 16, 26 a 30 Ebrill (gweler uchod)
- Gweithdy Cystadleuaeth BBaCh ERDF Blaenoriaeth 2 – 18 Ebrill
- Digwyddiad rhannu gwybodaeth am ESF – 3 Mai
- Diwrnod Ewrop – 9 Mai

[...yn ôl i'r brig](#)

## Cyfle ariannu

### Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd agorodd y cyfnod i Fynegi Diddordeb ar 6 Mawrth

Mae'r [Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig Bwyd](#) yn gynllun buddsoddiadau cyfalaf i gefnogi prosiectau sy'n cynnig buddion clir a meintiol i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun ar gael i fusnesau prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a

diod bach a micro newydd ledled Cymru.


Cynllun buddsoddi cyfalaf yw hwn ar gyfer gweithgareddau prosesu neu weithgynhyrchu bwyd a diod nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd o dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd.

Uchafswm y grant ar gyfer prosiect buddsoddi unigol yw 40% o gyfanswm y costau cymwys hyd at uchafswm o £50,000 ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol.

[...yn ôl i'r brig](#)

## Mae BREEAM yn newid

Neges yw hon i bawb â gweithrediadau sydd wedi'u hariannu gan gyllid Ewropeaidd yn rhan o'u portffolios, y gallai fod angen cyngor arbenigol arnynt ar ofynion BREEAM Llywodraeth Cymru. Ystyriodd a chymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru newidiadau i BREEAM a ddaeth i rym ar **30 Tachwedd 2017**.



### Beth yw BREEAM?

Llywodraeth Cymru yw un o lond llaw o Lywodraethau yn y byd sydd â dyletswydd gyfreithiol o ran datblygu cynaliadwy. Ar gyfer adeiladau annomestig, ceir defnydd a dealltwriaeth eang o **Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu** "BREEAM" (neu'r cynllun sicrwydd ansawdd cyfatebol), yn y diwydiant adeiladu i'w annog i gynllunio ac adeiladu adeiladau cynaliadwy. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i adeilad newydd a hyrwyddir neu a gefnogir gyrraedd y safonau adeiladu

cynaliadwy gofynnol.

### Pa fathau o adeiladau fydd angen cyrraedd y safonau hyn?

Math o ddatblygiad	Wedi'i gynnwys yn y polisi
Adeilad Newydd Preswyl	✓
Adeilad Newydd Annomestig	✓
Newid Defnydd	X
Estyniadau	X
Adnewyddu	X

### Beth yw goblygiadau hyn i Brosiectau a Ariennir gan Gyllid Ewropeaidd?

- Mae angen i unrhyw gymeradwyaeth gynllunio ar gyfer gweithrediadau a geir **ar ôl** 30 Tachwedd roi ystyriaeth i'r canllawiau newydd hyn.
- Mae angen i unrhyw gymeradwyaeth gynllunio ar gyfer gweithrediadau a geir **cyn** 30 Tachwedd ddefnyddio'r canllawiau BREEAM blaenorol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ffurf canllawiau statudol sy'n cynnwys gwybodaeth am ofynion polisi ac eithriadau. Bydd y canllawiau hyn ar gael y rhan o ganllawiau Themâu Trawsbynciol WEFO o fis Ionawr 2018 a byddant ar gael [yna](#).

**Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â [Thîm Themâu Trawsbynciol WEFO](#)**

[...yn ôl i'r brig](#)

## Cynllun Gwres Caerau

### Dyfarnu £6.5 miliwn i brosiect ynni dŵr pwll glo ar raddfa fawr cyntaf y DU yng Nghaerau

Rhodddwyd £6.5 miliwn o arian yr UE i fenter gwerth miliynau o bunnoedd a fydd yn rhoi Caerau, ger Maesteg, ar flaen y gad yn chwyldro ynni gwyrdd y DU trwy ddefnyddio dŵr sydd wedi llenwi gwaith pwll glo tanddaearol yn ffynhonnell geothermol o ynni.

Gan fod y dŵr tanddaearol yn hen bwl glo Caerau wedi'i wresogi'n naturiol gan y ddaear, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymchwilio sut y gellid echdynnu'r gwres trwy ddefnyddio technoleg pwmp gwres a rhwydwaith o bibellau i gynhesu rhyw 150 o gartrefi cyfagos.

Hwn fydd y cynllun ynni dŵr pwll glo cyntaf erioed i gael ei greu ar raddfa fawr yn y DU.



Wrth gyhoeddi'r cyllid, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths: "Ein huchelgais yw i'n cenedl fod yn arwain y byd o ran ynni carbon isel arloesol. Mae'r model hwn o gynhyrchu ffynhonnell lân o ynni adnewyddadwy yn torri tir newydd ac yn defnyddio ein hetifeddiaeth o'r diwydiant glo. Yn ogystal â denu rhagor o fuddsoddiad i'r ardal, bydd hefyd yn ymdrin â thlodi tanwydd trwy ostwng biliau ynni, ac mae'n bosibl y caiff ei gyflwyno ledled Cymru a thu hwnt. Bydd y cynllun hefyd yn creu swyddi yn y cyfnod adeiladu cychwynol ac

yn y gadwyn gyflenwi wrth fynd rhagddi, yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddi ac addysgu. Dyma un o lawer o enghreifftiau o'r effaith gadarnhaol y mae Cronfeydd yr UE yn ei chael ar ein rhanbarth."

Bydd y rhwydwaith gwres cychwynol yn cynnwys 150 o eiddo, a'r ysgol a'r eglwys gyfagos, ond mae'n bosibl y bydd y cynllun yn cynhesu hyd at fil o gartrefi lleol yn y pen draw.



Bwriedir cynnal arddangosfa yn ystod haf 2018, pan fydd canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb yn cael eu rhannu â thirgion Caerau ac unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect. Bydd gwaith adeiladu yn dechrau yn 2020 a bydd y cartrefi cyntaf yn cael eu cysylltu â'r system yn ystod gaeaf 2021.

Mae'r cynllun yn brosiect enghreifftiol ar gyfer Rhaglen Gwres Systemau Clyfar dan arweiniad Llywodraeth y DU. Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn costio cyfanswm o £9.4 miliwn, a bydd ganddo lawer o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Prifysgol Caerdydd, BGS, Kensa, Egnida, SPECIFIC, Carreg Las, Energy Systems Catapult, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Glo.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [Ceri Williams](#) neu [Michael Jenkins](#) yn Nhîm Datblygu Cynaliadwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 01656 643133.



## Buddsoddiad cyfalaf ERDF yn ein cymunedau

Ddydd Gwener 9 Mawrth ym Mhontypridd, cynhaliwyd lansiad swyddogol Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yr ERDF, sef rhaglen o fuddsoddi mewn canol trefi, gan Rebecca Evans AC, Gweinidog y Cabinet dros Dai ac Adfywio.

Mae Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn brosiect Cymru gyfan a fydd yn helpu i adfywio canol trefi trwy gaffael tir diffaith neu adeiladau segur neu sydd wedi'u tanddefnyddio, a'u hailddatblygu i greu swyddi a thwf a gwella sgiliau pobl yr ardal. Mae'r rhaglen gwerth £110 miliwn, gyda £38 miliwn o hwnnw yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a'r nod yw y bydd yn cefnogi twf busnesau, yn creu cyflogaeth ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi.



Y datblygiad ym Mhontypridd fydd y prosiect cyntaf yn y rhaglen. Yn rhan o becyn cyllid ehangach, bydd grant yr UE gwerth £7 miliwn, yn gweddnewid hen Ganolfan Siopa Cwm Taf ym Mhontypridd, sydd wedi bod yn segur ers sawl blwyddyn. Yn ei lle, bydd tri adeilad newydd ar wahân ar gyfer swyddfeydd gwasanaethau cymunedol fel llyfrgell a champfa. Wrth ymweld â'r safle, dywedodd Rebecca Evans "...bydd Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn adfywio ein canol trefi ac yn creu cyfleoedd gwych i bobl

a busnesau hyd a lled y wlad. Mae'n wych gweld bod y gwaith hwn eisoes ar y gweill ym Mhontypridd."



Prosiect arall ym mhorthfolio Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yw hen safle Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili, a tua diwedd y llynedd, llwyddwyd i sicrhau £713,000 ar ei gyfer. Er i'r adeilad hanesyddol gael ei achub rhag cael ei ddymchwel pan gaewyd yr ysbyty, mae angen arian i gwblhau ei weddnewidiad. Mae'n cael ei ddefnyddio eisoes yn ganolfan gymunedol a daw rhyw 1500 o ymwelwyr yno bob mis. Yn hwb arall i broffil Canolfan Glowyr Caerffili, sef ei henw erbyn hyn, daeth EM y Tywysog Siarl i ymweld â'r lleoliad yn ystod ei ymweliad â Chymru ym mis Rhagfyr. Roedd plant ysgol yno i'w gyfarch wrth y fynedfa ac aeth ar daith o amgylch yr adeilad gyda gwirfoddolwyr sy'n codi arian i helpu i weddnewid yr hen ysbyty. Mae rheolwr y prosiect wedi bod mor garedig ag ysgrifennu pwt i ni am yr ymweliad, gweler isod.

Mae'r ERDF hefyd yn cefnogi datblygiad safleoedd cyflogaeth newydd a fydd yn helpu i ysgogi twf economaidd ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae cyllid wedi'i sicrhau erbyn hyn ar gyfer datblygiadau yn Nhŷ Du, y Lawns yng Nghaerffili a Robertstown yn Aberdâr, a fydd yn helpu'r rhanbarth i ymateb i'r galw i ymestyn cyfleusterau diwydiannol a busnes sy'n cynnig mynediad rhwydd i gyfleusterau lleol a chysylltiadau trafniadaeth.

## VIPs â Chanolfan Glowyr Caerffili

“Mae Glowyr Caerffili yn grŵp o drigolion lleol sydd â'r nod cyffredin o adfer hen ysbyty Glowyr Caerffili er lles ein cymuned. Rydym yn gweithio i roi bywyd newydd i'r adeilad trwy ddarparu gwasanaethau i gefnogi lles a dysgu.

Agorodd ein canolfan yn 2015. Mae gennym dîm o 60 o wirfoddolwyr a 9 o ddeiliaid allweddî, ac rydym yn darparu dros 100 awr o weithgarwch i fwy na 300 o ymwelwyr yr wythnos. Mae'r ganolfan yn cynnig dosbarthiadau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, iaith, celfyddydau, crefftau a chwiltio, hyfforddiant i baratoi at waith, Tai chi, yoga a dawns. Mae gwirfoddolwyr yn trefnu gweithgareddau chwarae i fabanod, crefftau i blant, cyfarfodydd ein llysgenhadon ysgolion a'r fforwm ieuencid, gweithgareddau cymdeithasol Elderberries, clwb sinema yn y prynhawn, ymarfer corff o'r gadair, côr, digwyddiadau cerddorol, gweithdai garddio, gwerthiannau crefftau a chaffi cymunedol. Nid oes gennym ddigon o le ar gyfer holl anghenion ein cymuned ac ar gyfer popeth y gall ein gwirfoddolwyr ei gynnig, sef y rheswm

dros ein cais i adnewyddu dau lawr uchaf ein hadeilad a chreu maes parcio newydd.

Trefnodd gwirfoddolwr sy'n gweithio'n agos gyda swyddfa'r Tywysog Cymru yng Nghaerdydd i ni wahodd Tywysog Cymru i ymweld â ni. Roedd yr adeilad yn llawn, wrthi i 96 o bobl gymryd rhan mewn dosbarthiadau ymarfer corff o'r gadair, chwarae, fforwm ieuencid, dosbarthiadau crefftau a chelf, a gwnaethom ni ddangos i'w Fawrhydi y gwaith rydym yn gobeithio'i wneud ar yr adeilad i fyny'r grisiau. Siaradodd y Tywysog â phawb yn yr adeilad, y plant 18 mis oed a'r bobl 89 mlwydd oedd, a dywedodd fod hwn yn brosiect ardderchog a gwerth chweil â llawer iawn o botensial, a chytunodd i ddychwelyd i agor yr adeilad cyfan pe byddai dal byw ac iach! Am ddiwrnod anhygoel!

Ers hynny, rydym ni wedi cael ymweliad gan Alun Davies AC, Gweinidog y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror. Gwnaethom fwynhau hyn hefyd. Cawsom gyfle i esbonio sut y gallwn gyfrannu at Ein Cymoedd, Ein Dyfodol yn ogystal â chyflawni themâu allweddol y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.”

*Katherine Hughes, Canolfan Glowyr Caerffili  
i'r Gymuned*



[...yn ôl i'r brig](#)